OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2915 (Cy.240)

# PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

## Gorchymyn Pysgod Môr (Ardal Benodedig) (Gwahardd Offer Gosod) (Cymru) 2010

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn gwahardd defnyddio offer gosod wrth bysgota am bysgod môr yn yr ardal benodedig, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gwahardd defnyddio offer gosod wrth bysgota am bysgod môr yn yr ardal benodedig, yn ddarostyngedig i'r eithriadau a geir yn erthygl 4.

Mae erthygl 4 yn gosod yr eithriadau i'r gwaharddiad yn erthygl 3. Yr eithriadau yw offer gosod penodedig sydd wedi'u hawdurdodi o ran pysgota am bysgod môr.

Ni pharatowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Gorchymyn hwn gan na ragwelir unrhyw effaith ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 2915 (W.240)

# SEA FISHERIES, WALES

## The Sea Fish (Specified Area) (Prohibition of Fixed Engines) (Wales) Order 2010

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order, which applies in relation to Wales, prohibits the use of fixed engines when fishing for sea fish in the specified area, subject to certain exemptions.

Article 3 of this Order prohibits the use of fixed engines when fishing for sea fish in the specified area subject to the exemptions contained in article 4.

Article 4 sets out exemptions to the prohibition in article 3. The exemptions are specified fixed engines which are authorised in relation to fishing for sea fish.

A Regulatory Impact Assessment has not been prepared for this Order as no impact on the private or voluntary sectors is foreseen.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2915 (Cy.240)

# PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

## Gorchymyn Pysgod Môr (Ardal Benodedig) (Gwahardd Offer Gosod) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Rhagfyr 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *9 Rhagfyr 2010* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ionawr 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd gan adran 5(1) a (9) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.–(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgod Môr (Ardal Benodedig) (Gwahardd Offer Gosod) (Cymru) 2010 a daw i rym ar 1 Ionawr 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2**. Yn y Gorchymyn hwn–

ystyr "yr ardal benodedig" ("*the specified area*") yw unrhyw ddyfroedd mewndirol neu ddyfroedd llanw yng Nghymru;

ystyr "brithyll mudol" ("*migratory trout*") yw brithyll sy'n mudo yn ôl ac ymlaen i'r môr;

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "*Wales*" yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006((**2**)).

ystyr "dyfroedd llanw" ("*tidal waters*") yw unrhyw ran o'r môr neu unrhyw ran o afon sydd o fewn trai a gorllan y llanw ar lanw mawr arferol;

(**1**) 1967 p.84. Amnewidiwyd adrannau 5(1) a (9) gan adran 198 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p.23).

(**2**) 2006 p.32.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 2915 (W.240)

# SEA FISHERIES, WALES

## The Sea Fish (Specified Area) (Prohibition of Fixed Engines) (Wales) Order 2010

| | |
|---|---|
| *Made* | *7 December 2010* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *9 December 2010* |
| *Coming into force* | *1 January 2011* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by section 5(1) and (9) of the Sea Fish (Conservation) Act 1967(**1**), make the following Order:

**Title, commencement and application**

**1**.–(1) The title of this Order is the Sea Fish (Specified Area) (Prohibition of Fixed Engines) (Wales) Order 2010 and it comes into force on 1 January 2011.

(2) This Order applies in relation to Wales.

**Interpretation**

**2**. In this Order–

"fixed engine" ("*offer gosod*") includes–

(a) a stake net, bag net, putt or putcher;

(b) any fixed implement or engine for taking or facilitating the taking of fish;

(c) any net secured by anchors and any net or other implement for taking fish fixed to the soil, or made stationary in any other way; and

(d) any net placed or suspended in any inland waters or tidal waters unattended by the owner or a person duly authorised by the owner to use it for taking sea fish, and any engine, device, machine or contrivance, whether floating or otherwise, for placing or suspending such a net

(**1**) 1967 c.84. Section 5(1) and (9) are substituted by section 198 of the Marine and Coastal Access Act 2009 (c.23).

mae i "dyfroedd mewndirol" yr ystyr a roddir i "*inland waters*" yn adran 221(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(**1**);

mae "eog" ("*salmon*") yn cynnwys unrhyw bysgodyn o rywogaeth yr eog;

mae "offer gosod" ("*fixed engine*") yn cynnwys–

(a) rhwyd stanc, rhwyd cwdyn, rhwyd fasged neu rwyd fasged fawr;

(b) unrhyw declyn neu offeryn gosod ar gyfer cymryd neu hwyluso cymryd pysgod;

(c) unrhyw rwyd sy'n cael ei dal yn ei lle gan angorau ac unrhyw rwyd neu declyn arall ar gyfer cymryd pysgod, sy'n sownd i'r pridd, neu wedi'i osod yn sefydlog mewn unrhyw fodd arall; ac

(ch) unrhyw rwyd sy'n cael ei gosod, ei dal neu ei chynnal mewn unrhyw ddyfroedd mewndirol neu ddyfroedd llanw sydd heb fod yng ngofal y perchennog neu berson a awdurdodwyd yn briodol gan y perchennog i'w defnyddio ar gyfer cymryd pysgod môr, ac unrhyw offer, dyfais, peiriant neu beth, p'un ai a yw'n arnofio ai peidio, ar gyfer gosod neu ddal neu gynnal rhwyd o'r fath neu ei chynnal a'i chadw fel ei bod yn gweithio neu ei gwneud yn sefydlog; ac

ystyr "pysgod môr" ("*sea fish*") yw pysgod o unrhyw fath sydd i'w cael yn y môr, gan gynnwys pysgod cregyn, eogiaid a brithyll mudol;

or maintaining it in working order or making it stationary;

"inland waters" ("*dyfroedd mewndirol.*") has the meaning given in section 221(1) of the Water Resources Act 1991(**1**);

"migratory trout" ("*brithyll mudo*") means trout which migrate to and from the sea;

"salmon" ("*eog*") includes any fish of the salmon species;

"sea fish" ("*pysgod môr.*") means fish of any kind found in the sea, including shellfish, salmon and migratory trout;

"the specified area" ("*yr ardal benodedig*") means any inland waters or tidal waters in Wales;

"tidal waters" ("*dyfroedd llanw*") means any part of the sea or any part of a river within the ebb and flow of the tide at ordinary spring tides; and

"Wales" ("*Cymru*") has the meaning given in section 158 of the Government of Wales Act 2006(**2**).

**Gwaharddiad**

**3**. Yn ddarostyngedig i erthygl 4, gwaherddir pysgota am bysgod môr gydag offer gosod yn yr ardal benodedig.

**Prohibition**

**3**. Subject to article 4, fishing for sea fish with a fixed engine in the specified area is prohibited.

**Esemptiadau**

**4**.–(1) Nid yw erthygl 3 yn gymwys i–

(a) offer gosod, yr awdurdodir ei osod a'i ddefnyddio mewn is-ddeddfau a wnaed gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu ei rhagflaenyddion; neu

(b) offer gosod, yr awdurdodir ei osod a'i ddefnyddio mewn is-ddeddfau y cyfeirir atynt yn Erthygl 13 ac Atodlenni 3, 4 a 5 o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol a Darpariaethau Arbedol) (Cymru a Lloegr) 2010(**2**); neu

**Exemptions**

**4**.–(1) Article 3 does not apply to–

(a) a fixed engine, the placing and use of which is authorised by byelaws made by the Environment Agency or its predecessors; or

(b) a fixed engine, the placing and use of which is authorised by byelaws referred to in Article 13 of and Schedules 3, 4 and 5 to the Marine and Coastal Access Act 2009 (Commencement No. 1, Consequential, Transitional and Savings Provisions) (England and Wales) Order 2010(**3**); or

(**1**) 1991 p.57.

(**2**) O.S. 2010/630 (p.42).

(**1**) 1991 c.57.

(**2**) 2006 c.32.

(**3**) S.I. 2010/630 (c.42).

(c) offer gosod sy'n ddull trwyddedadwy o bysgota at ddibenion adran 25 o Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975(**1**) ac sy'n cael ei ddefnyddio yn unol â thrwydded a roddwyd at ddibenion yr adran honno; neu

(ch) offer gosod, yr awdurdodwyd ei osod a'i ddefnyddio o dan adran 27A o Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975.

(c) a fixed engine which is a licensable means of fishing for the purposes of section 25 of the Salmon and Freshwater Fisheries Act 1975(**1**) and which is being used in accordance with a licence granted for the purposes of that section; or

(d) a fixed engine, the use of which has been authorised under section 27A of the Salmon and Freshwater Fisheries Act 1975.

*Elin Jones*

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

7 Rhagfyr 2010

Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers

7 December 2010

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) 1975 p.51.

(**1**) 1975 c.51.

£4.00

W782/12/10 ON